# *Cefnogi Newid*: Gwisg Ysgol

Astudiaeth Achos 5

## Gwybodaeth

**Ysgol Arbennig Tir Morfa, Sir Ddinbych**

110 o Ddysgwyr

50.5% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim

## Y prif feysydd o dan sylw

- ✓ Cost a fforddiadwyedd
- ✓ Hyrwyddo'r Grant Hanfodion Ysgol
- ✓ Ailgylchu
- ✓ Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Gwaith (CWRE)

## Yr Angen a Amlygwyd

O dan CWRE a hyrwyddo dinasyddion mentrus Cymru, amlygodd ein hadran swyddogaethol fod angen eitemau gwisg ysgol rhad. Hefyd, mae'r gymuned yn rhoi cryn dipyn o wisgoedd ysgol i ni ac roedden ni am eu defnyddio'n dda. Penderfynodd y disgyblion a'r staff sefydlu siop cyfnewid gwisg ysgol.

## Cost y newid

Dim cost

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

## Camau a gymerir

- ✓ Caiff cyfraniadau **gwisg ysgol eu golchi, eu didoli a'u harddangos gan y dysgwyr** yn siop 'Bargeinion' yr ysgol
- ✓ **Mae'r ysgol yn ymgorffori'r cwricwlwm** ac yn datblygu sgiliau bywyd wrth roi sylw i'r angen am wisg ysgol fforddiadwy.
- ✓ Mae'r **gwisgoedd ysgol** wedi'u hailgylchu **ar gael yn hwylus** o'r 'siop' ac mewn gwahanol ddigwyddiadau ar hyd y flwyddyn ysgol
- ✓ **Hyrwyddir y Grant Hanfodion Ysgol**
- ✓ Lle gwelir bod angen, **anfonir eitemau gwisg ysgol adref**

## Pwy sy'n cymryd rhan?

- ✓ Dysgwyr
- ✓ Staff

**Dysgwyr:** Oddeutu 30 o ddysgwyr ar draws 3 dosbarth. Didoli'r eitemau fesul categori (e.e. dillad golau a thywyll), golchi, sychu a smwddio'r dillad, eu hongian, eu harddangos, eu prisio a'u gwerthu yn siop 'Bargeinion' yr ysgol.

**Staff:** Oddeutu 15 aelod o staff o 3 dosbarth. Yn cefnogi'r dysgwyr â'r tasgau uchod

## Effaith a chanlyniadau

- ✓ **Mae'r dysgwyr yn datblygu sgiliau bywyd defnyddiol,** megis golchi a didoli dillad, adnabod meintiau **mewn cyd-destun bywyd go iawn**
- ✓ **Caiff y dysgwyr brofiad gwaith** yn siop yr ysgol, gan gynnwys arddangos a phrisio dillad ac **ymwneud â'r cyhoedd**
- ✓ **Mae pob dysgwr yn barod am y diwrnod ysgol,** yr un fath â phawb arall
- ✓ **Gwisg ysgol am y gost leiaf** i deuluoedd, yn aml am ddim

## Y rhwystrau a gafodd sylw

Presenoldeb rhieni oedd y rhwystr mwyaf i ni. Fel ysgol arbennig, mae'r rhan fwyaf o'n disgyblion yn cael cludiant i'r ysgol a dydyn ni ddim yn gweld teuluoedd bob dydd, felly pan oedd y staff yn gweld bod angen, anfonwyd eitemau adref ac roedd y rhieni'n ddiolchgar am hynny

## Cyngor i ysgolion eraill

Cynnig gwisg ysgol mewn cyfarfodydd cyn derbyn, i arbed y gost gychwynnol i rieni. Gosod yr eitemau allan ym mhob digwyddiad.

## Eisiau gwybod mwy?

Gallwch gysylltu â'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu:

rhona.oneill@ysgoltirmorfa.co.uk